

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 20fed o Fawrth 2018.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Gordon Owen  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Sharon Wyn Parry  
Cyng. Beryl Salisbury

1. **Ymddiheuriadau** – Cyng. Einir Thomas
2. **Datganiad o ddiddordeb:** Cyng. and Gwilym O. Jones – eitem 4.4 a 8 Neuadd Bentref Caergeiliog, Y Rhwyd a Eglwys Santes Fair. Cyng. Gordon Owen eitem 4.4 a 8 sef Neuadd Bentref Caergeiliog a Eglwys Santes Fair. Gadawodd y ddau y cyfarfod am yr eitemau yma.
3. **Cofnodion cyfarfod o 20fed o Chwefror 2018:**  
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
  1. Maes Chwarae: Cyflwynwyd dyfynbris diwygiedig derbynol gan McVenture Playgrounds Cyf. , felly gallai'r gwaith ar yr arwynebau diogelwch gychwyn cyn gynted ag yr oedd y tywydd yn gwella. Nodwyd bod yr arolygiad ar yr offer chwarae wedi nodi rhai mân bethau oedd angen sylw (ar y sleid yn arbennig) ac roedd dal i fod angen symud y pyst y gôl. Cytunwyd i ofyn Mr Redmond a allai ei helpu.
  2. Llochesi Bws – Cytunodd Cyng. Dyfed Williams a William Victor Owen roi sylw i'r lloches ar Ffordd Minffordd.
  3. Gwaith cynnal Treifan - Cytunwyd y dylid gofyn i Mr Trefor Jones atgyweirio'r waliau cerrig ar y maes chwarae ac wrth 38 Treifan. –Dyfynnwyd pris o £650 am wneud hyn.  
Roedd Mr Redmond wedi trwsio'r meinciau ar Stad Treifan ac Rhen Ysgol ond roedd angen eu paentio.
  4. Neuadd Bentref - Nodwyd bod y capel a Thŷ Capel wedi'i roi ar werth drwy arwerthiant ond cafwyd gwallau difrifol ym manylion a ddyfynnir gan y Gwerthwyr Morgan Evans. Roedd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentref yn ymdrin â hyn.

Llofnod.....Cadeirydd.....

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – 32EL1542/E Bont Gam, Caergeiliog roedd Cyng. Gwilym O. Jones wedi cael gwybod mai lein drydan 240/415v i fodrydy Bont Gam oedd hon.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Penderfyniadau Cynllunio -dim

Ceisiadau Cynllunio

**32C208 Ty Mawr, Caergeiliog** – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i uned llety gwyliau – dim gwrthwynebiad.

**32C206 Neuadd, Caergeiliog** - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - cytunwyd i gefnogi hwn.

**32GD9N/2/DIS RAF Valley, Ffordd Minffordd, Llanfihangel yn Nhowyn** – Cais i ryddhau amodau (05) (cynllun draenio) a (07) (Cynllun Rheoli Traffig) o ganiatâd cynllunio – dim sylwadau.

**32C207 Ruabon, Llanfairynneubwll**

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy ar wahan – dim gwrthwynebiad.

**32C204A Baron Hill, Llanfair yn Neubwll**

Barn sgrinio i godi cytiau cwn (gofal dydd yn unig) a cathdy ar gyfer defnydd busnes, gosod carthbwll ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau – nodwyd

**32C204A Baron Hill, Llanfair yn Neubwll**

Cais llawn i godi cytiau cwn (gofal dydd yn unig) a cathdy ar gyfer defnydd busnes, gosod carthbwll ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau – dim sylwadau cyn belled y bod ymgynghoriad â chymdogion lleol.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – nodwyd.
2. Siarter Gyda'r Cyngor Sir – dim sylwadau.
3. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref A Chymuned – nodwyd y dyddiadau newydd

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 28.02.2018 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Yn y banc 20.3.2018 Cyfrif Cyfredol £12,705.41 Cyfrif Cadw £3,922.67

### Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Chwefror.)	£227.30	Archwilio Maes Chwarae	£40.00
CSYM (Etholiad)	£135.00	Rhent y Neuadd	£450.00

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury Cyng. Gordon Owen.)**

8.

**Rhoddion** – cytunwyd i wneud cyfraniadau yn unol â adran 137(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972  
Rhwyd - £100  
Eglwys Santes Fair - £50  
Ambiwllans Awyr Cymru - £100  
Neuadd Bentref Caergeiliog - £1,800

9. **Cyfrifon Terfynol 2017/18** – I'w cyflwyno mis nesaf.

10. **Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru O Holl Gynghorau Tref A Chymuned Cymru.
2. Llywodraethu A Rheolaeth Ariannol Mewn Cynghorau Lleol 2016-17
3. Ymgynghoriad Ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru
4. Cefnogaeth Ariannu Ar Gael Yn 2018 -19 - nodwyd bod £5,000 ar gael i helpu cynghorau i ystyried mentrau clystyru.
5. GDPR Tool Kit – Nodwyd fod NALC wedi comisiynu cwmni o gyfreithwyr i baratoi pecyn cymorth ar gyfer cynghorau wrth iddynt baratoi ar gyfer y dyddiad gweithredu. Cytunwyd y byddai Cyng. Sharon Parry yn ymgymryd â rôl Swyddog Diogelu Data ar gyfer y Cyngor.

11. **Unrhyw fater arall**

Hysbysodd Cyng. William Victor Owen fod:

1. twll mawr yn y lon ger Minffordd, Llanfihangel yn Nhowyn
2. y goleuadau rhybudd Ysgol wrth yr eglwys ar Ffordd Minffordd yn ddiffygiol.

Byddai'r clerch yn rhoi gwybod i CSYM.

12. **Cyfarfod nesaf 17 Ebrill 2018**

Llofnod.....Cadeirydd.....

Llofnod.....Cadeirydd.....